CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

COFNOD - CHWEFROR 2017

DYDDIAD	Nos Fercher, 15 Chwefror 2017
AMSER	7.00pm
LLEOLIAD	**Ysgol Rhosgadfan**

a)	**Croeso** Rhoddwyd croeso i bawb gan y Cadeirydd Rhys Owen, yn bresennol roedd Michelle Williams, Elin Evans, Nerys Evans, Elwyn Jones,Gwilym V Thomas, Gwilym Ll Williams, Caryl E Lewis (Clerc). Hefyd yn bresennol roedd Dylan Humphreys ar gyfer mater (e) a.
b)	**Ymddiheuriadau** Cyng. Aeron M Jones, Les Williams, Tom Ellis, Jason Hunt, Neal Williams.
c)	**Datgan Buddiant** Dim i'w nodi.
d)	**Cadarnhau cofnodion 25 Ionawr 2017 a materion yn codi** Cytunwyd eu bod yn gywir.
e)	**Materion i'w trafod:** a) Dylan Humphreys – Cae Chwarae Rhosgadfan Croesawyd Dylan i'r cyfarfod. Nodwyd ei fod yn mynychu i ofyn am gymorth gan y Cyngor Cymuned ar gyfer prosiect Cae Chwarae Rhosgadfan. Nodwyd mai ond y fo sydd ar ol ar y Pwyllgor erbyn hyn a nid oes ganddo'r amser i fod yn datblygu'r Cae Chwarae ymhellach. Mae angen ymgeisio am rhagor o grantiau i'w orffen. Y pentref sydd berchen y cae. Mae tua £800 ar ol yn y gronfa a maent am ei ddefnyddio i orffen y gwaith ffensio o amgylch y parc. Nododd Aelodau fod y Cyngor yn gefnogol iawn i'r cynllun ac yn ariannu yswiriant y cae chwarae ond mae rhaid i'r gymuned gymryd cyfrifoldeb drosto a chymryd perchnogaeth, nid rol y Cyngor Cymuned ydy gorffen y cae chwarae ac ymgeisio am grantiau ar eu rhan. Angen holi Iwan swyddog adfywio am gefnogaeth, Clerc i wneud hyn. Yna bydd angen hysbysu bobl y pentef am y sefyllfa. b) Cydweithio gyda Cynghorau Cymuned Cyfagos Nodwyd fod cyfarfod wedi ei gynnal wythnos yn flaenorol i drafod ffurfio Partneriaeth. Bu i AMJ a CEL fynychu. Cafwyd pleidlais i weld a oedd cytundeb i ymuno ar Bartneriaeth. Roedd pawb o blaid ond yn awyddus i gael yr hawl i optio allan os yn anghytuno gyda cyfeiriad y Bartneriaeth. Roedd pryderon am y bwriad i gyfuno cytundebau cynnal llwybrau a thori gwair mynwentydd ond gyda cytundeb i gael pris ar y cyd ond eto gyda'r opsiwn i optio allan ar unrhyw bwynt. c) Ceisiadau Nawdd Cytunwyd ar y symiau canlynol, sef cyfanswm nawdd o £3,600: Ysgol Gynradd Rhosgadfan - £200 Cylch Meithrin Llanwnda - £300 Theatr Bara Caws - £150 Clwb Peldroed Bontnewydd - £150 Treialon Cwn Defaid Llanllyfni - £50 Ysgol Gynradd Rhostryfan - £1,000 Lleu - £100 Clwb Felin Llanwnda - £100

	Canolfan Bro Llanwnda - £1,000 McMillan - £0 Neuadd Rhostryfan - £500 Ysgol Dyffryn Nantlle - £0 Cymdeithas Garddio Dyffryn Nantlle - £50 Cyngor ar Bopeth – £0, Cais wedi cyrraedd yn hwyr Bydd y Clerc yn mynd ati i lythyru'r sefydliadau. d) MW – Dwr yn dod lawr ffordd Rhostryfan, peryglus enwedig pan wedi rhewi. Clerc wedi derbyn ymateb gan Cyngor Gwynedd yn nodi eu bod yn rhoi sylw i'r mater a mewn cyswllt gyda'r tirfeddianwr. e) NE – Tan Gwyllt yn Hafoty, Rhostryfan – Rhwng dolig a flwyddyn newydd, Clerc wedi cysylltu gyda Adran Iechyd yr Amgylchedd, Cyngor Gwynedd. Ddim cwynion wedi eu derbyn ond os bydd pryderon pellach bydd angen cysylltu yn ol gyda'r manylion a dyddiadau a mi all Cyngor Gwynedd ymweld. f) GVT – Twll o flaen ysgol Rhosgadfan byth wedi ei sortio. Clerc wedi derbyn ymateb gan Cyngor Gwynedd yn nodi mai cyfrifoldeb y Bwrdd Dwr ydy cau'r twll ac mae nhw mewn cyswllt gyda nhw i ddatrys y sefyllfa. g) GVT – Pam fod Cyngor Gwynedd yn torri coed mawr yn Parc Glynllifon? Clerc wedi derbyn ymateb gan Barry Davies, Rheolwr y Parc yn nodi fod asesiad risg wedi cymryd lle a dangoswyd fod nifer o goed yn beryglus yno felly roedd rhaid eu torri. h) GLLW – Wrth Bryn Peris cyn cyrraedd junction carmel, Tryfan Hall – twll yn y lon Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd yn edrych mewn i hyn. i) GLLW – Sgwar Rhos Isaf, lon wedi sincio eto. Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd am ymgymryd a profion i weld beth sydd yn achosi hyn gan fod hyn wedi digwydd am yr ail dro. j) RO – Tyllau ar ffordd saron. Bydd Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd yn gyrru arolygwr allan i asesu. k) AMJ – Angen cynrychiolaeth or cyngor ar bwyllgor y chwarel Rhosgadfan. Angen 2/3 aelod i fynd ir cyfarfod. Cytunwyd y byddai GVT a MW yn mynd i'r cyfarfod. Clerc i yrru manylion ymlaen, cyfarfod i'w gynnal 28 Mawrth.
6.	**Derbyn Adroddiadau**
7.	**Is-bwyllgorau** a) Is-Bwyllgor Mynwent – Diweddariad ar y gwaith o godi'r wal o amgylch tir newydd Mynwent Cefnfaes. Eglurodd y Clerc fod cyfarfod safle wedi bod gyda Gerwyn Williams, Tenant Fferm Gadlys, NE, MW, GVT a GLLW. Yn sgil hyn aeth y Clerc ati i lunio briff. Derbyniwyd sylwadau bras ar y briff: - Angen nodi cyfanswm hyd y wal yn y dogfennau (1 rhan yn 1.5 o uchtwr o wal a rhan arall yn 1.5 o uchtwr yn cynnwys wal fechan a ffens)

	- Bydd angen caniatad cynllunio ar gyfer creu adwy newydd a trac, mae bosib gwneud hyn drwy'r fferm fel datblygiad amaethyddol. - RO i lunio map. - Clerc i fynd ati i addasu y pecyn tendro a creu rhestr o gontractwyr. b) Adolygu Rhestr Cynrychiolwyr Pwyllgorau Clerc i yrru ebost at Llywodraethwyr ysgol Rhostryfan i gadarnhau fod NE i barhau fel cynrychiolydd y Cyngor Cymuned.
8.	**Materion Ariannol** a) Adroddiad Ariannol **Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar 15 Chwefror 2017** **1. Cyfrif Cadw** Balans a ddygwyd ymlaen: 16,338.87 - Transfer i cyfrif siec 4,000.00 Balans ar derfyn busnes 17 Ion 2017 12,338.87 **2. Cyfrif Siec** Balans a ddygwyd ymlaen: 3,029.48 + Trosglwyddiad o cyfrif cadw 4,000.00 + Claddiad 350.00 - 101398 Caryl E Lewis Ion 438.51 - 101397 Swyddfa'r Post – PAYE Ion 99.00 - 101396 Caryl E Lewis McAFEE Antivirus 89.99 - 101395 Zurich 1,764.46 **Balans ar derfyn busnes 14 Chwef 2017: 4,987.52** **Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 15 Chwefror 2017:** Cyflog Clerc Chwef 438.51 Cyllid y Wlad Chwef 99.00 Archwilwyr BDO 326.55 **Cyfanswm 864.06**
9.	**Materion Cynllunio** Cais C17/0113/24/LL Codi ty fforddiadwy 3 llofft, tir ger Bronallt, Rhosgadfan Dim sylwadau
10.	**Gohebiaeth a chylchgronnau** Dim i'w nodi
11.	**Materion Cyfarfod Nesaf** MW - Dwr yn dod lawr lon Rhosgadfan (Ty Hen) NE – Llythyr gan Llywodraethwyr Rhostryfan, Cyngor Gwynedd wedi rhoi ffens o amgylch yr ysgol, oes bosib rhoi llwybr or stesion? Angen llythyr o gefnogaeth gan y Cyngor Cymuned. NE – Bin sbwriel tu allan i Bryn Melyn, wedi diflannu. EJ – Bin ger siop Rhostryfan wedi diflannu EE – Ochr y lon ger junction Ffrwd Cae Du wedi malurio. EJ – Angen agor ffoes ar llwybr bryngwyn a torri ychydig o eithin ochr y giat mochyn. Hefyd mae twll mawr yn y lon wrth Ger y Gorwel wrth lon Llwyn Onn. GLLW – Gwrychoedd Pen y Groeslon a gwar Bryn Melyn, wedi tyfu. Tai yr Onnen, gwrych gardd allan ir ffordd yn bell ac yn gwneud y lon yn gul iawn.

	RO – Wrth swyddfeydd Bwrdd Dwr Dinas i fyny at y bont rheilffordd, gwrych heb ei dorri digon. GVT – Cyflwr lon tarmac drwy Rhosgadfan am Fron yn ddifrifol, oes bwriad gwneud gwaith ar hyn. RO – Saron - Tyllau yn y lon a grass verge wedi ei falurio yn dilyn gwaith gan BT yn ddiweddar. **Dyddiad: 15 Mawrth 2017** **Lleoliad: Ysgol Rhosgadfan**